# AILDDATBLYGU HEN SAFLE'R NEUADD BINGO, PONTYPRIDD

## "SHWMAE, NI YW KNIGHTS BROWN"



Efallai nad ydych chi wedi clywed amdanom ni o'r blaen, felly dyma gyfle i gyflwyno ein hunain a dweud ychydig am Knights Brown. Rydyn ni wedi derbyn y contract yn ddiweddar i greu parth cyhoeddus newydd gyda chilfan bws integredig ar hen safle'r Neuadd Bingo yng nghanol tref Pontypridd ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.  Mae Knights Brown yn gwmni peirianneg sifil ac adeiladu modern ac arloesol gyda dros 60 mlynedd o brofiad yn y diwydiant. Mae gyda ni swyddfeydd adrannol yn Ringwood, Rochester a Phen-y-bont ar Ogwr. Rydyn ni'n darparu isadeiledd sifil a chynlluniau ynni cymhleth ledled y DU. Rydyn ni'n credu mai ein pobl ni sy'n ein gwneud ni'n wych yn ein gwaith ac mae gyda ni garfan wych yn gweithio yn ailddatblygu hen safle'r Neuadd Bingo ym Mhontypridd.

Rydyn ni'n gobeithio bydd y cylchlythyr rhagarweiniol yma'n eich helpu chi i ddeall y prosiect yn fanylach. Os oes gyda chi unrhyw gwestiynau neu ymholiadau, dewch i siarad gyda ni, bydden ni wrth ein boddau yn clywed eich barn chi (manylion cyswllt ar y cefn).



## TROSOLWG O'R PROSIECT

Bydd gwaith ailddatblygu hen safle'r Neuadd Bingo yn barth cyhoeddus newydd gyda chilfan bws integredig yn dechrau ym mis Chwefror. Roedden ni'n teimlo ei fod yn bwysig i ni gyflwyno ein hunain a rhannu gwybodaeth am y gwaith cyn i ni ddechrau.


Bydd y prosiect cyffrous yma'n cynnwys creu parth cyhoeddus newydd gyda llystyfiant, seddau, ciosg newydd a mynediad grisiau ar hyd y Stryd Fawr. Nodwedd bwysig yw lledu'r llwybr troed presennol er mwyn gwella hygyrchedd i bawb. Ynghyd â hyn, bydd cilfan bws â dau arhosfan yn cael ei adeiladu ar Heol Sardis. Bydd y prosiect yma hefyd yn integreiddio Systemau Draenio Cynaliadwy (SUDs), gan gynnwys pant wedi'i blannu, gerddi glaw, cafnau plannu a dros 150m2 o bafinau athraidd.

Yn dilyn llwyddiant gwaith dymchwel yr hen Neuadd Bingo yn 2021, bydd y prosiect yma'n dod â'r safle yn ôl i ddefnydd er budd y gymuned gan greu profiad mwy trawiadol a deniadol wrth gyrraedd y dref o gyfeiriad y de.

## CAMAU CYNTAF

Yn ystod cam gyntaf y prosiect, byddwn ni'n cyflawni'r tasgau canlynol:

- Clirio'r safle
- Gweithio ar yr Ynys Rhannu Traffig
- Cael gwared ar bafin
- Cynnal gweithredoedd draenio
- Cynnal gwaith concrit wedi'i
- Atgyfnerthu






## TIMEFRAME


Byddwn ni'n dechrau'r gwaith ddydd Llun 5 Chwefror 2024. Bydd yr holl waith yn cymryd oddeutu 24 wythnos i'w gwblhau. Byddwn ni'n ceisio rhoi gwybod i drigolion a busnesau am unrhyw newidiadau a dyddiadau allweddol wrth i'n gwaith fynd rhagddo.


RHONDDA CYNON TAF

KNIGHTS BROWN

# AILDDATBLYGU HEN SAFLE'R NEUADD BINGO, PONTYPRIDD

## CYNIGION AILDDATBLYGU



## RHEOLI TRAFFIG

Oherwydd natur gyfyng y safle, bydd angen cau lonydd a dargyfeirio llwybrau troed. Bydd dal modd i gerddwyr gyrraedd y stryd fawr yn ystod y prosiect, a hynny gan ddefnyddio'r mannau croesi presennol. Cofiwch - bydd y trefniadau yn newid pan fyddwn ni'n dechrau gweithio ar yr ynys hollti. Fodd bynnag, byddwn ni'n darparu llwybr croesi arall.

Bydd angen cau lonydd ar Heol Sardis er mwyn hwyluso'r gwaith:

•Bydd Lôn 1 ar gau o ddydd Llun 5 Chwefror i ddydd Gwener 9 Chwefror ar gyfer cludo deunyddiau a pheiriannau. Bydd y lôn yn ailagor am y penwythnos dydd Sadwrn 10 Chwefror a dydd Sul 11 Chwefror.

•Bydd Lôn 3 ar gau o ddydd Llun 12 Chwefror, a bydd dargyfeiriad ar waith, fel bod modd cwblhau'r gwaith ar yr ynys hollti.

Byddwn ni'n rhoi gwybod i fusnesau lleol am unrhyw fesurau rheoli traffig pellach yn uniongyrchol. Bydd modd i'r cyhoedd gael yr wybodaeth ddiweddaraf ar wefan Dewch i Siarad RhCT: Porth y De (defnyddiwch y cod QR ar waelod y dudalen), yn ogystal â thrwy ddatganiadau i'r wasg a chyfryngau cymdeithasol y Cyngor.

Anfonwch unrhyw gwestiynau pellach am y trefniadau yma at PorthyDe@rctcbc.gov.uk a bydd aelod o'r garfan yn cysylltu â chi.



## ORIAU GWAITH Y SAFLE

Ein horiau gwaith arferol o ddydd Llun i ddydd Gwener yw 8am tan 6pm a 8am tan 1pm bob dydd Sadwrn. Rydyn ni'n ceisio lliniaru unrhyw sŵn sy'n deillio o gerbydau ac offer cyn 8am ac ar ôl 5pm. Eithriad i hyn yw os byddwn ni efallai'n cyflwyno oriau gwaith ychwanegol lle bo angen. Yn gyffredinol, rydyn ni'n ceisio cynnal diwrnodau lles er lles ein carfan.

Efallai bydd angen gweithio oriau hirach neu ar amser anarferol ar dasgau penodol yn achlysurol. Byddwn ni'n rhoi gwybod am hyn ymlaen llaw os bydd angen.

## CWRDD Â'R GARFAN

Rheolwr Contractau: Scott Stacy
Rheolwr y Prosiect: Owen Kingsbury
Rheolwr Safle: Nicholas Caddy
Swyddog Ymgysylltu: Tracy Beall



## MANYLION CYSWLLT


E-BOST: TALKTOUS@KNIGHTSBROWN.CO.UK
FFÔN: 07977091261
GWEFAN: WWW.KBINFOWALES.CO.UK


Dewch i Siarad Porth y de